katie

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Ystafell Bwyllgor 3A, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 9 Hydref 2017 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | S E Crouch | E W Fitzgerald |
| L S Gibbard | D W Helliwell | T J Hennegan |
| C A Holley | P Jones | E J King |
| I E Mann | M Sykes | G J Tanner |

| **Aelod Cyfetholedig** | **Aelod Cyfetholedig** | **Aelod Cyfetholedig** |
|---|---|---|
| P M Black | P R Hood-Williams | J W Jones |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd Jennifer Raynor, Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Debbie Smith | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| Katie Spendiff | Cydlynydd Hawliau Plant |
| Kathryn Thomas | Pennaeth yr Uned Cefnogi Ysgolion |
| Jane Whitmore | Partnership & Commissioning Manager |
| Nick Williams | Cydlynydd Hawliau Plant |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice, C R Evans, B Hopkins aac W G Thomas
Aelod Cyfetholedig: D Anderson Thomas

---

## 41 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddianau canlynol:

Y Cynghorydd M H Jones - personol – Cofnod Rhif 45 - Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol yr Olchfa - crybwyllwyd caeau chwarae'r Olchfa fel rhan o Sesiwn Holi Aelod y Cabinet.

Y Cynghorydd J W Jones - personol - Cofnod Rhif 45 - Llywodraethwr yn Ysgol yr Olchfa - crybwyllwyd caeau chwarae'r Olchfa fel rhan o Sesiwn Holi Aelod y Cabinet.

**42 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chyhoeddwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

**43 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 11 Medi 2017 fel cofnod cywir.

**44 Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**45 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Y Cynghorydd Jennifer Raynor).**

Darparodd y Cynghorydd Jennifer Raynor, Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, anerchiad llafar yn ychwanegol at yr adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd. Tynnodd sylw at y meysydd canlynol: -

- Gwell perfformiad o ran cyrhaeddiad disgyblion yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Roedd cyfnod allweddol 4 i'w bennu o hyd.
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Prosiect Cynnydd - prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop i CGE i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau ag Aelod y Cabinet, y Prif Swyddog Addysg a Phennaeth yr Uned Cefnogi Ysgolion yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Camau i sicrhau y gwerthfawrogir addysg gan bawb ac y galluogir myfyrwyr i ffynnu
- Argaeledd hyfforddiant i ysgolion o ran ymlyniad, teuluoedd yn chwalu neu brofiadau niweidiol eraill sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc
- Grant Datblygu Disgyblion (Plant sy'n Derbyn Gofal)
- Menter 'Tîm am yr Ysgol' ar gyfer ysgolion y mae angen cefnogaeth ychwanegol arnynt
- Hyfforddiant cadernid a chefnogaeth i deuluoedd sy'n ymdopi â phrofedigaeth
- Blaenoriaeth y cyngor ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan gynnwys arolygon cyflwr adeiladau
- Gwerthu tir addysg sydd dros ben (nodwyd y cafwyd gwerth £3.6 miliwn o elw o werthiannau ers 2012 - nid yw'r tir a werthwyd wedi cynnwys cyfleusterau ysgolion, ond roeddent yn bennaf yn ysgolion gwag ac yn asedau addysg ehangach)
- Goblygiadau iechyd o fygdarthau ceir a bysus yn enwedig ar adeg gollwng plant yn yr ysgol, a'u codi.
- Targedau ar gyfer darpariaeth addysg Gymraeg
- Meini prawf ar gyfer dosbarthu cyfraniadau addysg a dderbyniwyd drwy Gytundebau Cynllunio A106.

- Cynllun peilot 30 awr o ofal plant am ddim yn cael ei gynnal yn Abertawe
- Gofynion cofrestru gydag AGGCC
- Ffigurau trawiadol ar gyfer trosglwyddo i ysgolion uwchradd Cymraeg
- Angen gwella'r gyfradd sy'n trosglwyddo o ofal plant i'r meithrin
- Ymgynghorwyr Herio - buddion a safbwyntiau croes i'w gilydd
- Dirywiad Ieithoedd Tramor Modern mewn ysgolion
- Seicolegwyr Addysg a'r amser a neilltuir ar eu cyfer mewn ysgolion
- Faint o wasanaethau a ddirprwyir i ysgolion
- Cyfrifoldeb am y cwricwlwm ysgol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer addysgu am yr amgylchedd/cynaladwyedd
- Effaith newid y system raddio yn Lloegr
- Pennu dalgylchoedd ysgolion
- Cynnydd o ran yr Uned Atgyfeirio Disgyblion yn y Cocyd
- Effeithiolrwydd Cyrff Llywodraethu

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 46 Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc - Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2017.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, y Rheolwr Partneriaeth a Chomisiynu a'r Cydlynydd Hawliau Plant adroddiad cynnydd blynyddol ar Gynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2017.

Amlygodd y Cydlynydd Hawliau Plant y meysydd gwaith canlynol: -

- Ymgysylltu'n barhaus ac yn gynyddol â phlant a phobl ifanc, gyda 6,087 o gyfranogwyr ar draws yr ystod oedran 2 i 18.
- Cynyddu ystod oedran yr her Magu Plant Corfforaethol
- Cyfranogaeth Senedd Ieuenctid y DU
- Y Blynyddoedd Cynnar a sicrhau gofal plant o safon
- Hybu gwybodaeth am CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn)
- 98% o ysgolion yn Abertawe'n rhan o’r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau
- Argymhellion ar gyfer gwelliant yn y dyfodol - ehangu ein hymagwedd, ehangu ein cynnig, bod yn fwy gweladwy ac asesu effaith.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau â'r Aelod Cabinet a swyddogion yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Gwella argaeledd adroddiadau yn y dyfodol
- Data'r Arolwg Mawr - data annisgwyl o ran profiadau mewn perthynas ag iechyd rhywiol, sigaréts ac alcohol - awgrymwyd y dylai cwestiynau arolwg yn y dyfodol ystyried sigaréts electronig. Trafodwyd canlyniadau mewn perthynas â barn plant am drosglwyddo i ysgol uwchradd hefyd.
- Sut caiff yr adroddiad ag ysgolion ei rannu - nodwyd bod Data'r Arolwg Mawr wedi cael ei ddadansoddi fesul ysgol ac y caiff ei gyflwyno iddynt er mwyn iddynt ymateb yn unol â hynny. Caiff yr adborth gan ysgolion ar yr arolwg ei rannu â'r pwyllgor.

- Gwahaniaeth amlwg yn y ffordd yr ymatebodd ysgolion cynradd ac uwchradd i'r broses o Archwilio Cynghorau Ysgol
- Cynnwys plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref

Diolchwyd i swyddogion a chydweithwyr gan y pwyllgor am y gwaith gwych a wnaed ganddynt gydag ysgolion a chanmolwyd yr hyfforddiant CCUHP a gyflwynwyd y llynedd hefyd.

**Penderfynwyd** y dylai'r Aelod Cabinet a Swyddogion nodi barn y pwyllgor am y cynnydd.

## 47 Aelodaeth paneli a gweithgorau craffu.

Cyflwynodd y cadeirydd adroddiad am aelodaeth weithredol/y panel craffu.

**Penderfynwyd**: -

1) Cymeradwyo cyfethol y canlynol:
<u>Panel Perfformiad y Gwasanaethau i Oedolion</u>
Tony Beddow
Katrina Guntrip

2) Nodi'r newidiadau canlynol i <u>Banel Perfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:</u> -
Mae Martyn Waygood wedi cymryd lle Paul Newman fel cynrychiolydd PABM
Mae'r Cyng. Paulette Smith wedi gadael Panel Heddlu a Throseddu De Cymru, ac rydym yn aros i gynrychiolydd newydd gael ei gadarnhau.

## 48 Rhaglen Waith Craffu 2017/18.

Amlygodd y Cadeirydd Raglen Waith Craffu 2017/2018 i'w hadolygu.

Nododd y Cadeirydd y ceisir mynegiannau o ddiddordeb gan gynghorwyr craffu i gymryd rhan yn y gyfres nesaf o weithgorau a nodwyd. Awgrymwyd gohirio'r gweithgor ar Ddigartrefedd tan y Flwyddyn Newydd i alluogi trafodaeth ar y Strategaeth Digartrefedd ddrafft sy'n cael ei datblygu.

Darparwyd crynodeb o gynlluniau gwaith Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisïau'r Cyngor i sicrhau ymwybyddiaeth ac i helpu i osgoi dyblygu.
Nododd aelodau y byddai cyfarfod pwyllgor arall ar 17 Hydref am 2pm er mwyn craffu cyn penderfynu ar adroddiad cabinet ar adfywio Sgwâr y Castell.

**Penderfynwyd** y byddai'r 2 weithgor nesaf yn trafod:
Taliadau Meysydd Parcio
Cynnal a Chadw Ffyrdd/Troedffyrdd

## 49 Llythyrau craffu.

Adroddwyd am gofnod o lythyrau craffu a ysgrifennwyd eleni a gohebiaeth rhwng y Pwyllgor ac Aelodau Cabinet sy'n ymwneud â'r cyfarfod pwyllgor ym mis Awst.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cynnwys y llythyrau.

**50 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.**

Nodwyd Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

**51 Dyddiad ac amser cyfarfodydd Nesaf paneli/gweithgorau.**

Nodwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.20 pm

**Cadeirydd**